# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU, 26.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Stephen Churchman (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Hefyd yn bresennol -** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau), Nicholas Hopkins (Uwch Swyddog Pensiynau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) (Cyngor Gwynedd); Einir W. Thomas a Donna Jones (Cyngor Sir Ynys Môn); Katherine Coughlan (Coleg Llandrillo-Menai), Huw Trainer (Heddlu Gogledd Cymru), Emyr Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), David O'Neill (Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy), Barry Bracegirdle (GMB), Lynn Patterson (Cynnal), Robin Owen (Unsain), Katherine Owen (Cyngor Tref Caernarfon) a Paul Potter (Hymans Robertson)

**Ymddiheuriadau -** Y Cynghorwyr Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Peter Read, John P. Roberts (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynoddd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2011/12 oedd yn cynnwys:

- adolygiad y flwyddyn
- tueddiadau diweddar
- adroddiad rheoli yn crynhoi prif nodweddion gweinyddu'r cynllun
- sefyllfa actiwaraidd y gronfa
- trefniadau gweinyddol a chadw
- amlinelliad o'r pwerau buddsoddi a'r dull o reoli buddsoddiadau

- crynodeb o'r perfformiad buddsoddi
- datganiad o egwyddorion buddsoddi a strategaeth cyllido
- manylion y strwythur rheoli
- ystadegau aelodaeth
- datganiad o gyfrifon 2011/12 a nodiadau i'r cyfrifon
- atodiadau yn cynnwys datganiadau polisi cyfathrebu a llywodraethu, datganiad cydymffurfiad â'r drefn lywodraethol, datganiad o egwyddorion buddsoddi a'r strategaeth cyllido

Rhoddodd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- Perfformiad Buddsoddi'r Gronfa am 2011/12. Nododd bod y perfformiad ychydig dan y meincnod ar gyfer y flwyddyn gyda'r Gronfa'n dychwelyd 0.5% ar fuddsoddiadau o'i gymharu â meincnod o 0.7% ar gyfer y cyfnod hwnnw. Felly 'roedd yn flwyddyn siomedig oherwydd dychweliadau gwael cyson gan Capital International ac yn wyneb hynny penderfynwyd terfynu eu mandad a phenodi rheolwr newydd yn eu lle sef Veritas. Tynnodd sylw at berfformiad blynyddol y Gronfa o'i gymharu â chronfeydd eraill tros y 10 mlynedd ddiwethaf. Y llynedd gwelwyd bod y Gronfa wedi cynyddu 0.5% a bod enillion y cyfartaledd wedi cynyddu 3%.
- Nododd i bondiau berfformio'n dda gydag Insight Investment yn dychwelyd 3.2% ond bod y meincnod yn 0.8%. Parthed portffolio bondiau'r Cyngor, penderfynwyd yn hytrach na dilyn meincnod bondiau traddodiadol, dylid cymryd sefyllfa mwy amddiffynnol fel pan fyddai'r bondiau'n gostwng ac yn mynd yn negyddol bod y dychweliadau'n parhau'n bositif. Nododd bod y dychweliadau yn ystod 10 mlynedd o'r Gronfa oddeutu 5.4% y flwyddyn tra bo'r cyfartaledd oddeutu 5.6%. Disgwylir wrth i ecwiti berfformio llawer iawn gwell yn y blynyddoedd nesaf ac wrth i fondiau ddioddef mwy, rhagwelir budd yn deillio i'r Gronfa.
- Cyfeiriodd at fuddsoddi yn y maes isadeiladwaith er ceisio gwasgaru risg a chael dychweliadau gwahanol i ecwiti a bondiau.
- Nododd bod yr uned weinyddol yn parhau i berfformio'n effeithiol.
- Tynnodd sylw at y newid i'r cynllun pensiwn presennol yn 2014 lle y cyfrifir pensiwn ar sail enillion cyfartaledd gyrfa yn hytrach na chyflog terfynol ac oedran ymddeol cysylltiedig â oedran pensiwn y wladwriaeth. O ran dosraniad y cynnydd yng nghyfraniadau gweithwyr, byddai hyn mae'n debyg yn sicrhau nad yw'n ysgogi aelodau i adael y Gronfa Bensiwn. Cyfeiriodd at gofrestru awtomatig mewn cynllun pensiwn ar gyfer gweithwyr a fyddai'n sicrhau bod mwy o bobl gyda darpariaeth pensiwn a'r perygl y gallai hyn gael effaith ar gyllidebau cyflogwyr ac iddynt feddwl am hynny yn awr.
- Cyfeiriodd at brisiad 2013 gyda newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr yn 2014. Nododd mai gobaith y llywodraeth yw y byddai'r cynllun newydd yn lleihau costau ar y cyflogwyr oherwydd i'r cynllun hwnnw gael ei gynhyrchu i geisio sicrhau hynny. Mae'r dychweliadau ar fondiau wedi disgyn yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd, fodd bynnag am waethygu sefyllfa ariannol y cronfeydd. Pan ymgymerwyd â'r prisiad yn 2010 'roedd gan y Gronfa asedau i dalu 83% o'r ymrwymiadau ac 'roedd hynny'n eithaf calonogol. Erbyn 2011 'roedd y sefyllfa wedi gwella gan godi i 87%. Nododd y comisiynwyd adroddiad er gweld beth fyddai sefyllfa'r Gronfa pe byddai wedi ei brisio ar 1 Ebrill 2012. Oherwydd bod dychweliadau bondiau wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, byddai gwerth y Gronfa yn lleihau 70% pe byddai wedi ei brisio ar 1 Ebrill 2012. Nododd yn y prisiad diwethaf, 'roedd cyfraniad y cyflogwyr ar gyfer gwasanaeth y dyfodol yn 17.8% ond pe byddai prisiad wedi ei wneud ar 1 Ebrill 2012 byddai cyfraniad y cyflogwyr yn 24.9%. Os bydd y sefyllfa economaidd

presennol yn parhau, yna yn y prisiad nesaf rhagwelir pwysau sylweddol ar gyfraniad y cyflogwyr gyda chynnydd posibl. Fodd bynnag, byddai'r Gronfa yn cymryd camau i geisio sicrhau na fyddai naid mor sylweddol yn bwydo trwodd. Serch hynny, dylid bod yn fyw i'r ffaith bod rhywfaint o gynnydd yn bosibilrwydd cryf.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y ffaith bod rhai aelodau o'r Gronfa Bensiwn yn penderfynu ildio eu haelodaeth o'r Gronfa a bod hynny'n creu problemau o fewn y Gronfa.

Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol os yr ymunir â'r Gronfa yn 20 oed, yna mae'r cyfraniadau gan y Gronfa i'w buddsoddi tros gyfnod o 40 mlynedd. Fodd bynnag, os yr ymunir â'r Gronfa yn 50 oed fe fyddai'r buddsoddiadau'n cynyddu tros amser ond am gyfnod byr iawn tan adeg yr ymddeoliad. Nododd ei bod yn fuddiol felly i bobl ifanc ymuno â'r Gronfa ac y dylid eu hannog i wneud hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am adroddiad eglur a chynhwysfawr.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau o'r llawr.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.30pm.